YSGOL GYFUN GYMRAEG
BRYNTAWE

BLWYDDYN 11 2015-2016

# Pecyn Gwybodaeth a Chyfeirio i Ddisgyblion a Rhieni



**Cymraeg Iaith**

Tasg – Ysgrifennu creadigol/dychmygus
Tasg – Darn o waith cwrs yn seiliedig ar ddrama
Tasg – Araith Mynegi Barn (o dan arolygaeth)

**Dyddiad Cau: Rhagfyr 14eg, 2015 (fan pellaf)**
**Pwysiad: 30%**

**Cymraeg Llenyddiaeth**

Tasg – Darn o waith cwrs yn seiliedig ar ddrama
Tasg - Traethawd yn ymateb i ddwy stori fer (o dan arolygaeth)

**Pwysiad: 25%**

---

**Saesneg Iaith**

Uned 3: Darllen (2 awr) 10% Ymateb estynedig i destunau anllenyddol

Ysgrifennu (2 awr) 10% Ffeithiol neu creadigol

Mae'r uchod yn dasgau asesu o dan arolygaeth a rhaid eu cwblhau yn yr ysgol

Uned 4: Llafar (20%)

Cyflwyniad llafar unigol yn cyflwyno gwybodaeth (10%)
Trafodaeth grwp ar bwnc llosg (10%)

**Saesneg Llenyddiaeth**

Uned 3: Shakespeare/ barddoniaeth (4 awr) 25%

Mae'r uchod yn dasg asesu o dan arolygaeth a rhaid eu cwblhau yn yr ysgol.

**Dyddiad Cau: Rhaid cwblhau'r holl dasgau asesu erbyn 8fed Ionawr, 2016**

---

**Mathemateg**

Ni cheir unrhyw waith cwrs. Arholiad yn unig

---

**Gwyddoniaeth – Bioleg/Cemeg/Ffiseg**

Gosodir y tasgau dosbarth i'r disgyblion i'w cwblhau o fewn y gwersi. Manylion pellach gan y Gyfadran Wyddoniaeth.

---

**TGCh**

**OCR Cambridge Nationals Lefel 1/2**

1. Arholiad Ysgrifenedig (25%): **Ionawr 8fed, 2016** (bydd cyfle i ail sefyll yr arholiad yn yr haf)

2. Gwaith Cwrs Tasg 1: Graffeg Cyfrifiadurol. **Dyddiad Cau: Rhagfyr 5ed, 2015**

3. Gwaith Cwrs Tasg 2: Defnyddio TGCh i greu Datrysiadau Busnes. **Dyddiad Cau: Chwefror 27ain, 2016**

4. Gwaith Cwrs Tasg 3: Cyflwyniad Amlgyfrwng. **Dyddiad Cau: Chwefror 21ain, 2016**

**Pwysiad Gwaith Cwrs: 75%**

**Cwrs Craidd - Sgiliau Hanfodol Cymru**

Bydd **pob disgybl blwyddyn 11 yn cwblhau** y cwrs craidd yma. Mae'n rhan o'r portffolio sgiliau allweddol ar gyfer y Bagloriaeth Cymraeg.

Cwmni Trefnu Teithiau: Pamffled, Cyflwyniad, Taenlen, Cronfa Data
**Dyddiad Cau: Chwefror 27ain, 2016**
**Pwysiad: 100%**

---

**Daearyddiaeth**

Tasg 1 Yr Astudiaeth:'.Ymchwiliwch i'r ffactorau sy'n effeithio ar ansawdd amgylchedd adwerthu Abertawe.'

Cwblheir y dasg o dan amodau arholiad o fewn y dosbarth.

**Dyddiad Cau: Ionawr 29ain, 2016**
**Pwysiad: 25%**

---

**Hanes**

Asesiad Mewnol:
Tasg 1: Pa mor ddefnyddiol a dibynadwy yw'r ffynonellau o ran egluro sut y newidiwyd bywydau pobl yn ystod yr Ail Ryfel Byd gan ymgilio?

**Dyddiad Cau: Hydref 24ain 2015.**

Tasg 2: Mae rhai haneswyr yn dadlau y dylem gofio digwyddiadau yn Dunkirk yn 1940 fel buddugoliaeth i Brydain a'i phobl. Pa mor ddilys yw'r dehongliad yma o'r hyn ddigwyddodd yn Dunkirk yn 1940?

**Dyddiad Cau: Rhagfyr 19eg 2015.**

**Pwysiad: 25%**

---

**Astudiaethau Crefyddol**

Nid oes gwaith cwrs. 100% arholiad.

---

**IEITHOEDD TRAMOR MODERN**

**Ffrangeg / Sbaeneg / Almaeneg**
Ysgrifennu – asesiad dan reolaeth
400 – 600 gair (cyfuniad o'r ddwy dasg)
Rhaid i'r tasgau gael eu dewis o'r themâu osodwyd gan CBAC.

Llafar – asesiad dan reolaeth
Sgwrs strwythuredig wedi'i seilio ar thema o'r canllawiau. 4 – 5 munud.

Cyflwyniad ar unrhyw bwnc 5-7 munud.

**Dyddiad Cau: Mawrth, 2016**
**Pwysiad: Ysgrifennu : 30% Llafar : 30%**

---

**Y Gyfadran Dechnoleg**

**DT Gwrthiannol**
Creu ffolio dylunio 14 tudalen o A3 a chreu arteffact i'w cwblhau dan amodau arholiad o fewn yr ysgol.

**Dyddiad Cau: Mawrth 24ain, 2016**
**Pwysiad: 60%**

**Electroneg**
Dylunio a chreu prototeip. Gwerthuso cynnyrch electroneg.

**Dyddiad Cau: Ionawr 28ain, 2016**
**Pwysiad: 25%**

**Celf a Celf Tecstilau**
Portffolio o waith sy'n cynnwys llyfr braslunio, tudalennau A2 a darnau gorffenedig.

**Dyddiad Cau: Rhagfyr y 1af, 2015**
**Pwysiad: 60%**

**Arlwyo**
Gwaith Cwrs Ymarferol

**Dyddiad Cau: Mawrth 18fed, 2016**
**Pwysiad: 60%**

**CITB**

Mae asesiadau yn digwydd yn gyson o fewn y gwersi. Fel rheol asesir y gwaith fesul thema / uned fel y caiff ei gwblhau. Bydd arholiad / asesiad terfynol yn cael ei wneud ar ddiwedd y cwrs yn seiliedig ar bob agwedd a astudiwyd drwy'r cwrs. Dyfernir llwyddiant yn nhermau PASIO neu FETHU yn unig.

---

**Cerddoriaeth**

**Cyfansoddi**
**Pwysiad: 30%**

| | |
|---|---|
| Drafft cyntaf Cyfansoddiad 2: | Rhagyfer 12fed, 2015 |
| Ail ddrafft Cyfansoddiad 2: | 08/01/16 |
| Cyflwyno'r ffolio cyfan | 12/02/16 |
| **Cyflwyno'r ffolio terfynol** | **15/04/16** |

**Perfformio (os yn berthnasol)**
**Pwysiad: 30%**

| | |
|---|---|
| Asesiad Perfformio | Ionawr 28ain, 2016 |
| Ffug arholiad Perfformio | Chwefror 11eg, 2016 |
| **Arholiad terfynol perfformio** | **Mawrth, 2016** (dyddiad i'w gadarnhau gan CBAC) |

**Sesiwn ychwanegol ar gyfer gwaith cwrs: amser cinio bob Dydd Mercher**

---

**Drama**

Traethawd estynedig wedi'i selio ar yr arholiad ymarferol mewnol. I'w gwblhau dan oruchwyliaeth ffurfiol.

**Dyddiad Cau:** **Ionawr 2016**
**Pwysiad:** **20%**

---

**Astudiaethau Cyfryngau**

Tasg 1: Dadansoddi Testun 1: Cynrychiolaeth
Tasg 2: Dadansoddi Testun 2: Genre
Tasg 3: Tasg Gynhyrchu

**Dyddiad Cau:** **Mawrth, 2016**
**Pwysiad:** **60%**

---

**Busnes Cymhwysol**

Uned 2 - Arholaid Ysgrifenedig (1 awr 15 Munud)

**Dyddiad:** **Dydd Iau, Ionawr 7fed , 2016**
**Pwysiad:** **40%**

---

**Addysg Gorfforol**

Ni cheir tasgau gwaith cwrs ysgrifenedig. Ond ceir arholiad ymarferol (60%) ym mis Mawrth 2016 (dyddiad i'w gadarnhau) a ffug arholiad ymarferol mewnol ar Ionawr 15ed, 2016.

Asesiad ymarferol allanol (os yn berthnasol). Fe fydd angen tystiolaeth fideo ac asesiad gan hyfforddwr cymwys erbyn Ionawr 15ed, 2016.

---

**Iechyd a Gofal Cymdeithasol (TGAU Sengl)**

Tasg: ASESIAD O DAN REOLAETH
Uned 1: Gwasanaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Phlant

**Dyddiad Cau:** **Ebrill 14eg, 2016**
**Pwysiad:** **60%**

Fe fydd y disgyblion yn eistedd arholiad yn ystod mis Ionawr. Mae'r arholiad hwn yn cyfri am 40% o'r cwrs TGAU.

---

**BTEC Lefel 2 : Tystysgrif Estynedig mewn Chwaraeon**

Mae'r cwrs yn cynnwys 9 aseiniad:

- Profi ffitrwydd ac ymarfer ( 4 aseiniad)
- Chwaraeon Ymarferol (2 aseiniad)
- Trefnu ac arwain gweithgareddau chwaraeon (2 aseiniad)
- Datblygu ffitrwydd personol (1 aseiniad)

**Dyddiad Cau:** **Mawrth 18fed, 2016**
**Pwysiad:** **100%**

---

**Trin Gwallt - Tystysgrif mewn Gwasanaeth Trin Gwallt – Sylfaenol (6926)**

Nid oes gwaith cwrs ysgrifenedig swyddogol. Caiff y gwaith ei rhannu i dri modiwl unigol cyfwerth â'i gilydd, sef:

- Gwaith Ymarferol
- Asesiad ar Lein
- Tasgau ysgrifenedig

---

**BTEC Tystysgrif Genedlaethol Cyntaf yng Ngofal Dysgu a Datblygiad Plant – Lefel 2**

Mae'r gwaith cwrs yn cyfrif am 100% o'r cwrs. Nid oes arholiad allanol.

**Dyddiad Cau:** **Mai, 2016**
**Pwysiad:** **100%**

---

**Tystysgrif Gyntaf BTEC mewn Gwasanaethau Cyhoeddus - Lefel 2:**

Mae'r cwrs yn cynnwys 4 uned:
1. Sgiliau Gwasanaethau Cyhoeddus
2. Cyflogaeth yn y Gwasanaethau Cyhoeddus
5. Iechyd a ffitrwydd ar gyfer mynediad i'r Gwasanaethau Cyhoeddus
9. Chwaraeon a Hamdden yn y Gwasanaethau Cyhoeddus

**Dyddiad Cau Terfynol:** **Mai, 2015**
**Pwysiad:** **100% Gwaith Cwrs**

---

**TGAU Hamdden a Thwristiaeth**
**Uned 1: Darpariaeth Hamdden a Thwristiaeth mewn ardal ddewisol**
Asesiad o dan reolaeth (15 awr). Caiff y gwaith cwrs ei greu o dan amodau rheoledig o fewn y dosbarth a bydd yn dechrau ym mis Rhagfyr ac yn parhau i'r flwyddyn newydd.

**Dyddiad Cau Terfynol:** **Ebrill 1af, 2016**
**Pwysiad:** **60%**

Fe fydd rhai disgyblion yn sefyll yr arholiad Hamdden a Thwristiaeth ar Ionawr 6ed, 2016.
**Pwysiad:** **40%**

---

**Y Fagloriaeth Gymreig**
**Ymchwiliad Unigol:**
Ymchwiliad mewn i bwnc arbennig gan edrych ar sefyllfa Cymru a gwlad neu ranbarth arall.

**Dyddiad Cau Terfynol:** **Rhagfyr 19eg, 2015**

**Sgiliau Alweddol a Hanfodol Cymru – Lefel 2**
**Datrys Problem**
Cyfres o dasgau i'w cwblhau yn o dosbarth.

**Gweithio Gydag Eraill**
Cyfres o dasgau i'w cwblhau yn y dosbarth.

**Cyfathrebu**
Cyfres o dasgau i'w cwblhau yn y dosbarth.

**Dyddiad Cau Terfynol:** **Ionawr 30ain, 2016**

# YSGOL GYFUN GYMRAEG BRYNTAWE

# EIN HYMRWYMIAD

**Fel y gwyddoch rwy'n siwr, roedd canlyniadau TGAU llynedd yn destun balcher i'r ysgol, gyda 95.5% o'r disgyblion yn llwyddo i ennill 5 neu fwy TGAU A* - C. Gobeithiwn barhau â'r llwyddiant ysgubol yma y flwyddyn hon gyda chefnogaeth disgyblion a rhieni.**

- Rydym newydd orffen Adolygiad Cynnydd o ddisgyblion blwyddyn 11. Os yw eich plentyn yn tangyflawni mewn tri neu fwy o'i b/phynciau caiff ei f/monitro gan aelod o'r Tîm Rheoli Uwch er mwyn ceisio gwella ei g/chyrhaeddiad academaidd presennol. Fe fyddwn yn arolygu cynnydd disgyblion blwyddyn 11 yn y flwyddyn academiadd allweddol hon eto ym mis Mawrth.

- Mae modd i'ch mab/merch mynychu clybiau Gwaith Cartref / Adolygu / Gwaith Cwrs yn ysgol yr awr ginio ac ar ôl ysgol. Mae'r llyfrgell a'r ganolfan astudio ar gael yn ystod yr awr ginio ac ar ôl ysgol tan 4.30yh er mwyn i ddisgyblion fedru cwblhau tasgau. Darperir cyfrifiaduron yn y ddwy ystafell.

- Gosodir gwaith cartref yn gyson. Dylai disgyblion gofnodi gwaith cartref yn eu Llyfrau Cyswllt. Os na chyflwynir gwaith cartref yna cysylltir â rhieni trwy gyfrwng y llyfr hwn. Mae'n allweddol bod eich mab/merch yn dod â'r llyfr i'r ysgol yn ddyddiol.

- Byddwn yn monitro presenoldeb yn fanwl tu hwnt ac yn cysylltu'n unionsyth pe bai gennym bryderon. Byddwn yn ddiolchgar iawn pe fyddech yn cysylltu â'r ysgol i'n hysbysu mewn mater o absenoldeb.

- Bydd y staff, gyda chefnogaeth y Tîm Rheoli Uwch yn gwneud ein gorau i sicrhau bod pob disgybl yn cyrraedd ei b/photensial yn llawn. Ni allwn bwysleisio pwysigrwydd ymdrech gyson drwy gydol y flwyddyn academaidd hon. Mae gwaith cwrs yn allweddol i lwyddiant eich plentyn. Yn aml gall godi'r radd derfynol yn sylweddol.

- Fe fydd y ffug brofion yn cychwyn ar Ragfyr 10$^{fed}$. Ym mis Ionawr dosberthir adroddiadau manwl a fydd yn eich hysbysu o gynnydd academaidd eich plentyn ynghyd â thargedau pendol ar gyfer gwelliant.

# YSGOL GYFUN GYMRAEG BRYNTAWE

# CYFRANIAD RHIENI / GWARCHODWYR

***Parental support is EIGHT TIMES more important in determining a child's academic success than social class, according to a new study. The Campaign for Learning found that parental involvement in a child's education can mean the difference between an A* and an 'also-ran' at GCSE.***

**(Times Educational Supplement, Hydref 10fed, 2003)**

**Efallai yr ystyriwch nifer o'r pwyntiau isod yn rhai amlwg, ond maent yn darparu gorolwg defnyddiol o sut y gallwch chithau gynnig cymorth i'ch plentyn yn ystod y cyfnod allweddol ac yn aml anodd hwn.**

- Sicrhewch bresenoldeb uchel. Dylai'ch plentyn fynchu ysgol pob dydd onibai am salwch. Bydd chwe gwers yn cael eu colli yn dyddiol o ganlyniad i ddiffyg presenoldeb.

- Os yw absenoldeb yn anochel, a wnewch chi sicrhau bod y gwaith a gollwyd yn cael ei gwblhau. Cysylltwch â'r ysgol am gymorth os yr ydych yn dymuno.

- Sicrhewch bod gan eich plentyn yr offer cywir ar gyfer pob un gwers, gan gynnwys y llyfr cyswllt.

- Sicrhewch bod eich plentyn yn drefnus gyda'i waith cartref. Yn ddelfrydol byddai ganddo/i fwrdd i weithio arno a hynny mewn lle tawel, addas. Amcangyfrifir y dylid wario oddeutu 2 awr y noson ac ar benwythnosau yn astudio. Mae adolygu cyson yn angenrheidiol os nad oes tasgau gwaith cartref neu waith cwrs penodol i'w cyflawni.

- Efallai yr hoffech gynllunio rhaglen astudio gyda'ch plentyn. Bydd angen adolygu gwaith blwyddyn 10 ynghyd â chrynhoi prif bwyntiau y nodiadau dosbarth. Mae angen dysgu'r gwaith yn drwyadl a chynnal profion bychain o bryd i'w gilydd er mwyn mesur cynnydd.

- Sicrhewch eich bod yn cadw cysylltiad agos â'r Pennaeth Blwyddyn, Athrawon Pwnc a'r Tiwtor Personol trwy gyfrwng y Llyfr Cyswllt. Mae croeso i chi gysylltu â'r ysgol pe bai unrhyw amheuon gennych.

## Gwefannau Defnyddiol

www.connexions-direct.com/whichwaynow
www.projecteducation.co.uk
www.bbc.co.uk (dewiswch 'teens')
www.gcse.com
www.s-cool.co.uk
www. cbac.co uk